



Cyd baratoi heddiw at ddyfodol yfory

Ysgol Llannon

Polisi Dysgu ac Addysgu

Cyflwyniad

Rydym fel ysgol yn credu'n gryf yn y syniad o addysg hyd-oes - mae plant ac oedolion yn dysgu pethau newydd bob dydd. Credwn y dylai dysgu fod yn brofiad diddorol, gwerth chweil ac yn rhywbeth pleserus i bawb. Ceisiwn roi i'n plant, y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau pwysig yn eu bywydau. Credwn fod profiadau arbennig o fewn y dysgu a'r addysgu yn mynd i fod o gymorth i'r plant yn eu bywydau fel oedolion.

Amcanion

Rydym yn credu bod pobl yn dysgu orau trwy wahanol ddulliau. Yn ein hysgol rydym yn darparu amgylchedd dysgu cyfoethog ac amrywiol sy'n rhoi cyfle i'r plant i gyd i ddatblygu eu sgiliau a'u gallu hyd at eu potensial cyflawn.

Trwy ein haddysgu ein nod yw datblygu a chefnogi disgyblion i fod yn:

- **Unigolion iach ac hyderus sy'n yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr**
- **Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yn barod if od yn dinasyddion i Gymru a'r byd**
- **Cyfranwyr mentrus a Chreadigol yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywydau a'u gwaith**
- **Dysgwyr uchelgeisiol a galluog yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes**

Dysgu effeithiol

Credwn fel ysgol fod pobl yn dysgu'n well mewn amrywiaeth o ffyrdd boed yn weledol, yn glywedol neu'n ginesthetig. Amlygwn hyn trwy ddysgu awyr agored, sgiliau meddwl, medrau allweddol, dinasyddiaeth fyd-eang a llythrennedd emosiynol. Cynigwn amgylchedd addysgu amrywiol sy'n galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau, gan bwysleisio datblygiad sgiliau meddwl, a'u medrau i'w llawn potensial.

Rydym yn sicrhau'r amgylchedd gorau posib ar gyfer dysgu trwy ddatblygu awyrgylch positif lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn perthyn, lle maen nhw'n mwynhau her, ond yn mwynhau dysgu ac yn gwybod y byddant yn llwyddo [oherwydd eu bod yn gwybod bod yr her wedi ei gosod ar y lefel gywir].

Yn ôl damcaniaethau dysgu ac wrth ystyried y 12 egwyddor addysgeg sy'n allweddol wrth ddarparu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, o fewn strwythur gwerau, dylid:

- adeiladu ar ddysgu ac ymgysylltu blaenorol;
- esbonio'r amcanion dysgu, a dweud pam mae'r wers yn bwysig;
- cyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o ddulliau fyddai'n cynnwys dulliau addysgu uniongyrchol ac hefyd yn rhannol trwy ddulliau darganfod;
- rhoi cyfleoedd i'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth yn annibynnol trwy weithgareddau amrywiol;
- rhoi cyfleoedd i feddwl yn ddyfnach ac i fod yn feirniadol a chreadigol;
- cynnig adborth, dathlu llwyddiant ac adolygu strategaethau dysgu;
- amlinellu'r cam nesaf yn y dysgu cyn symud ymlaen.

Dysgir y cwricwlwm drwy addasiadau o themau Cornerstones a dilynwn cynlluniau Erw Mathemateg ac Iaith. Mae llais y disgybl yn hanfodol ac yn chwarae rhan blaenllaw wrth gynllunio ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad er mwyn sicrhau cyd-destunau ystyrion a dilys sydd o ddiddordeb i'r disgyblion.

Dysgir themau Cornerstones (cylch 2 flynedd CA2, cylch 3 mlynedd CS) yn draws gwricwlaidd ac erbyn hyn mae'r gwerau yn cael eu paratoi a'u cynllunio o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad – Cwricwlwm i Gymru:

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Mathemateg a Rhifedd
- Celfyddydau Mynegianol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Iechys a Lles
- Dyniaethau

Rydym yn cydnabod fod pobl yn dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd a bod angen i ni ddatblygu nifer o strategaethau ar eu cyfer:

- ymchwiliadau a datrys problemau
- ymchwilio a darganfod
- gwaith grŵp
- gwaith par
- gwaith annibynnol
- gwaith dosbarth cyfan
- holi ac ateb cwestiynau
- defnyddio cyfrifiaduron a Thech.Gwyb.
- ymweliadau a gwaith maes

- gweithgareddau creadigol
- defnyddio teledu, tapiau a fideo
- chwarae rôl a gweithgareddau llafar
- cynllunio ac adeiladu
- gweithgareddau corfforol

Seiliwn yr addysgu ar ein gwybodaeth am gyrhaeddiad y plant. Ein priff ffocws yw datblygu sgiliau a gwybodaeth y plant. Anelwn at ddarparu gweithgareddau ar gyfer gallu'r plant ar draws yr Ysgol. Rydym yn ystyried cynnwys y CAU a Phroffil 1 tudalen wrth baratoi ar gyfer y plant ag ADY. **Mae gennym ddisgwyliadau uchel o'r holl blant ar draws yr Ysgol.**

Gosodir targedau ar gyfer y plant ar ddechrau pob tymor a rhennir y targedau gyda rhieni'r plant yn y nosweithiau rhieni a'r adroddiadau blynyddol.

Ymdrechir pob aelod o staff i greu perthynas weithiol effeithiol gyda'r holl blant er mwyn creu awyrgylch caredig a pharchus. Rhoddwn bwyslais ar gyfel cyfartal a thegwch. Mae'r holl staff yn dilyn polisi ymddygiad yr Ysgol er mwyn sicrhau rheolaeth ddosbarth. Gosodir reolau dosbarth ar y cyd gyda'r diagyblion. Disgwyliwn i'r holl ddisgyblion gydffurfio â'r rheolau er mwyn sicrhau amgylchedd addysgiadol.

Dosbarthwn gynorthwywyr dysgu ac oedolion eraill yn effeithiol. Maent yn gweithio gyda disgyblion unigol a grwpiau bychan. Hyfforddir cynorthwywyr er mwyn cynnal sesiynau CHATT, HWB YMLAEN, DYFAL DONC.

Creuwn amgylcheddau dysgu deniadol ac effeithiol yn y dosbarthiadau. Newidir yr arddangosfeydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyfateb i'r testunau ag astudiwyd. Rydyn yn sicrhau bod cyfle gan bob disgybl i arddangos ei waith/gwaith yn gyson yn ystod y flwyddyn. Ceir casgliad o lyfrau berthnasol – ffeithiol a ffuglen – yn y dosbarthiadau.

Cyfnod Sylfaen

Yn y Cyfnod Sylfaen rydyn ni'n gweithio gan ganolbwyntio ar y cam mae'r plant yn gweithio arni yn hytrach na'u hoed. Mae'r dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1, a Blwyddyn 2 wedi eu gwahaniaethu gan sicrhau bod bob disgybl yn gweithio ar y cam sydd yn addas iddynt. Mae athro yn canolbwyntio ar dasgiau ffocws iaith, Llafaredd a Chyfathrebu ac athro arall yn canolbwyntio ar dasgiau ffocws Mathemateg a Rhifedd. Mae'r amserlen yn sicrhau fod bob grŵp yn derbyn tasg ffocws iaith a mathemateg yn ddyddiol. Mae tasgiau thematig yn cael eu cynnal yn y prynhawn ac mae'r athrawon yn gyfrifol am wahanol llinynnau sydd wedi eu cynllunio ar y cyd, yn seiliedig ar gynlluniau, arsylwadau, a llais y plant. Mae dosbarthiadau penodedig wedi eu neilltuo ar gyfer tasgiau ffocws a'r dosbarth mwyaf wedi ei neilltuo ar gyfer heriau. Mae'r cynorthwywyr yn arwain tasgiau ac yn arsylwi yn y dosbarth heriau. Mae nhw'n gwneud gweithgareddau ymyrraeth yn eu tro yn ystod yr wythnos. Mae'r tasgiau ffocws hefyd yn cael eu gweithredu yn yr ardal allanol ac yn y dosbarth her. Mae cynlluniau yn cael eu paratoi ar y cyd ar blatfform 'One Drive' (HWB) ac yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd cynllunio wythnosol. Mae staff cynorthwyol hefyd yn bresennol yn ystod y cyfarfodydd hyn. Mae eu harsylwadau yn gystal a nodiadau incerts yn cael eu hystyried wrth gynllunio ymlaen.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Blynyddoedd cymysg sydd yn CA2: blynyddoedd 3 a 4 a blynyddoedd 5 a 6. Mae'r disgyblion yn gweithio o fewn grwpiau gallu tebyg ac hefyd mewn grwpiau gallu cymysg yn rheolaidd. Dilynir y

drefn o ganolbwyntio ar iaith a mathemateg yn y boreau cyn symyd i weithio'n thematig yn y prynhawniau (2 prynhawn) lle disgwylir i sgiliau'r FfLLaRh gael eu datblygu'n draws gwricwlaidd. Dysgir wyddoniaeth am brynhawn cyfan ac hefyd gwersi addysg gorfforol. Yn ystod y prynhawniau thematig, gweithiai'r athrawon gyda grwpiau ffocws tra weithiau'r disgyblion eraill ar fentrau iaith, rhifedd, digidol a chreadigol yn annibynnol. Wrth baratoi a chynllunio gweithgareddau, mae'r athrawon yn ystyried syniadau'r disgyblion wrth iddyn nhw ymateb i'r cwestiwn mawr rhoddir gan yr athrawon ar gychwyn uned o waith. Defnyddir INCERTS er mwyn sicrhau fod disgyblion yn gweithio ar weithgareddau sy'n ddigon heriol iddynt er mwyn iddynt ddatblygu.

Rôl y Llywodraethwyr

Mae'r llywodraethwyr yn penderfynu, cefnogi, monitro ac adolygu'r holl bolisiau dysgu ac addysgu. Yn benodol maent yn:

- cefnogi strategaethau dysgu trwy ddsbarthu adnoddau yn effeithiol;
- sicrhau bod safle ac adeilad yr ysgol yn cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol;
- monitro strategaethau dysgu ac addysgu yng nghyd-destun trefniant iechyd a diogelwch;
- monitro effeithlonrwydd strategaethau dysgu ac addysgu yng nghyddestun codi cyrhaeddiad disgyblion;
- sicrhau bod polisiau datblygiad staff a rheoli perfformiad yn hyrwyddo addysgu o ansawdd uchel;
- monitro effeithlonrwydd polisiau dysgu ac addysgu'r ysgol trwy broses hunan arfarnu'r ysgol.
- Maent yn cynnwys adroddiadau arweinyddion pwnc ac adroddiad blynyddol y pennaeth i'r llywodraethwyr yn ogystal ag adolygiadau o sesiynau HMS.

Rôl Rhieni

Credwn fod rôl allweddol gan y rhieni wrth gynorthwyo addysg eu plant. Rydyn yn hysbysu rhieni ynglŷn â datblygiad academaidd eu plant trwy:

- gynnal noson rhieni er mwyn esbonio targedau personol eu plant;
- gynnal noson gwricwlaidd er mwyn esbonio strategaethau dysgu'r ysgol;
- ddanfôn gwybodaeth i rieni ar ddechrau pob tymor yn amlinelli pynciau a thestunau byddwn yn astudio yn ystod y tymor;
- ddanfôn adroddiadau rheolaidd i rieni sydd yn amlinelli datblygiad a thargedau eu plant;
- esbonio sut y gall rhieni gynorthwyo eu plant gyda gwaith cartref.

Rydyn yn hyrwyddo darllen ar y cyd a chefnogaeth rhieni wrth i ddisgyblion ymgymryd mewn gwaith prosiect neu ymchwiliol. Credwn fod cyfrifoldeb gan rieni wrth gefnogi'r disgyblion a'r ysgol i weithredu polisiau. Hoffwn pe bai rhieni yn:

- sicrhau bod cofnod presenoldeb eu plant yn uchel;

- sicrhau bod dillad ac offer addas gan eu plant ar gyfer yr ysgol gan gynnwys gwisg ysgol a gwisg addysg gorfforol gywir;
- gwneud eu gorau i gadw eu plant yn iach er mwyn mynychu'r ysgol;
- cysylltu â'r ysgol ynglŷn a materion tu allan i'r ysgol a allai effeithio ar ymddygiad neu gyrhaeddiad eu plant;
- hyrwyddo agwedd bositif tuag at yr ysgol a dysgu'n gyffredinol;
- cyflawni'r gofynion yn y cytundeb ysgol/ cartref.